

# Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Ymgorfforti Menter yn y Cwricwlwm

### Astudiaeth achos:
### Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant




**Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant yn ysgol gynradd ddwyieithog mewn ardal wledig yng Ngogledd Powys gyda phedwar dosbarth oedran. Nod yr ysgol yw darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i ddisgyblion sy'n ennyn a chynnal brwdfrydedd disgyblion er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr llwyddiannus. Y.G. Llanrhaeadr Ym Mochnant oedd enillydd y Wobr Menter Gymdeithasol yn Rownd Derfynol Genedlaethol Y Criw Mentrus 2021 am eu prosiect 'Sebon a Chalon'.**

**“Mae ymgorffori addysg fenter wedi bod o gymorth mawr i ni ddatblygu ein cwricwlwm oherwydd mae wedi rhoi cyfleoedd i’n disgyblion weithio o fewn eu cymuned leol i gefnogi eraill a hefyd i ddefnyddio a datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd at ddiben gwirioneddol.”**

Pennaeth

Eu dull fu ymgorffori addysg fenter yng ngwaith dosbarth â thema. Er enghraifft, wrth gwblhau prosiect ar barc cenedlaethol yn India, penderfynodd y plant eu bod am gefnogi cadwraeth teigrod a datblygwyd y syniad o ddylunio, cynhyrchu a gwerthu cardiau Nadolig yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Yn yr un modd, fel rhan o waith thematig ar Affrica a’r diffyg dŵr glân, dewisodd y plant gynhyrchu a gwerthu sebon i godi arian i Water Aid. Cwblhawyd y ddau brosiect gan ddosbarthiadau’r Cyfnod Sylfaen ar ôl i ddisgyblion wneud ymchwil seiliedig ar bwnc cyn dechrau ar eu prosiect menter. Mae’r dull ymgorffori yma wedi ysbrydoli’r disgyblion ac maent yn ystyried menter fel rhan naturiol o’u gwaith dosbarth.

Roedd llawer o gysylltiadau cwricwlaidd yn perthyn i’r prosiectau menter, er enghraifft, rhoi cyfleoedd bywyd go iawn i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd trwy gyfrifo costau, trin arian, deall elw, a chadw cyfrif o stoc. Bu’r disgyblion hefyd yn greadigol wrth ddylunio eu cardiau a’u blasau sebon, gan wneud defnydd effeithiol o TGCh, defnyddio apiau i greu posteri, casglu data a chreu gwaith celf ar gyfer y cardiau a’r labeli sebon. Roedd disgyblion yn cyfathrebu â rhieni a’r gymuned ehangach trwy ysgrifennu llythyrau, dylunio posteri, a chreu labeli, yn ogystal â chyfathrebu ar lafar gyda phobl yn y gymuned wrth werthu eu cynnyrch mewn ffeiriau lleol. Roedd y dull hwn hefyd yn eu dysgu am yr elusennau yr oeddent yn eu cefnogi ac yn eu helpu i ddeall eu rôl fel dinasyddion byd-eang.














Cafodd y plant fudd mawr o'r dull ymgorfforedig yma gan eu bod yn awyddus iawn i gefnogi'r elusennau dewisol oherwydd y gwaith yr oeddent wedi'i wneud yn y dosbarth. Roedd llais y disgybl yn rhan fawr iawn o'r broses, ac wrth i'r plant gyfrannu at y prosiectau, roedd y gweithgareddau'n ennyn eu diddordeb a'u hysbrydoli wrth iddynt weld eu syniadau'n datblygu ac yn tyfu. Roedd eu gwaith ysgrifenedig yn benodol, a'r prosiectau menter yn gyfoethog o ran cyfleoedd wrth iddynt gynorthwyo'r plant i feddwl yn greadigol, cymhwyso eu sgiliau, ac i ddod yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol. Rhannodd y plant eu syniadau hefyd trwy arddangosfeydd yn yr ysgol a gyda rhieni gan ddefnyddio iMovie a chyflwyniadau PowerPoint.

**"Rydw i mor hapus i allu helpu Raj Bhera y teigr i gael lle i fyw."**

Bwriad yr ysgol yw parhau i weithio fel hyn. Mae disgyblion yn bwriadu cynnal te prynhawn i rieni a'r gymuned i godi arian i greu gardd bywyd gwyllt. Maent hefyd wedi cynhyrchu a gwerthu rhagor o sebon i godi arian i fabwysiadu arth wen.

Yn ogystal â chodi arian yn llwyddiannus i gefnogi'r elusennau yr oeddent wedi penderfynu eu helpu, mae ymgorffori menter ar draws y cwricwlwm hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu. Yn ystod y broses defnyddiodd y disgyblion eu sgiliau iaith a llythrennedd trwy gyfathrebu â chynulleidfa mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roeddent hefyd yn defnyddio ystod o sgiliau mathemategol, datblygu ymwybyddiaeth o'r byd ehangach ac effaith bodau dynol ar yr amgylchedd, ac wedi dod yn blant mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Cyswllt: Catrin Evans
Ebost: EvansC814@hwbcymru.net

*Ydych chi'n cymryd rhan mewn mentrau yn eich ysgol yn barod neu hoffech chi weld sut mae rhoi cynnig arni? I gael digon o ysbrydoliaeth, syniadau a rhagor o astudiaethau achos sy'n dangos sut y gallech ddefnyddio menter fel modd i wella pob agwedd ar y cwricwlwm cynradd, ewch i www.criwmentrus.com neu cysylltwch ag un o'r tîm am gymorth.*

Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru